Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET*

## *2.00 PM DYDD MERCHER, 30 MEDI 2020*

## *O BELL TRWY TEAMS*

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**Rhan 1**

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 3 - 38)*
   - 29 Ionawr 2020
   - 5 Chwefror 2020
   - 12 Chwefror 2020
   - 19 Chwefror 2020
   - 5 Mawrth 2020
   - 21 Mai 2020
   - 25 Mehefin 2020
   - 23 Gorffennaf 2020
   - 30 Gorffennaf 2020

3. Craffu Cyn Penderfynu
   - Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

4. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**

**Port Talbot** **Dydd Iau, 24 Medi 2020**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **M.Harvey**

**Is-gadeirydd:** **S.Rahaman**

**Cynghorwyr:** S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Council Chamber - Port Talbot Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, R.Mizen, J.D.Morgan, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | H.Jenkins, S.Phillips, C.Griffiths, S.Morris, S.Curran, C.Furlow-Harris, H.Jones, K.Jones a/ac S.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones a/ac A.R.Lockyer |

---

1. **DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU**

Cafwyd datganiadau o fudd gan y Cynghorwyr canlynol ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S.M Penry: | Par: Eitem 2 o bapurau'r Cabinet par. Ymgynghoriad ar y Gyllideb Gwasanaethau Corfforaethol a Chynigion Arbedion Drafft, am ei bod yn Aelod o Fwrdd CVS ac Age Connect. |
| Y Cyng. Saifur Rahaman: | Par: Eitem 2 o bapurau'r Cabinet par. Ymgynghoriad ar y Gyllideb Gwasanaethau Corfforaethol a Chynigion Arbedion Drafft, am ei fod yn ysgrifennydd Cymdeithas Gymunedol PddLIE CNPT sy'n derbyn cyllid grant gan CBSCNPT. |
| Y Cyng. Sonia Reynolds: | Par: Eitem 2 o bapurau'r Cabinet par. Ymgynghoriad ar y Gyllideb Gwasanaethau Corfforaethol a |

Chynigion Arbedion Drafft, am ei bod yn ymddiriedolwr ar Ganolfan Maerdy.

Y Cyng. Arwyn Woolcock: Par: Eitem 2 o bapurau'r Cabinet par. Ymgynghoriad ar y Gyllideb Gwasanaethau Corfforaethol a Chynigion Arbedion Drafft, am fod ei nith yn Rheolwr Hyfforddiant a Chymorth Datblygu yn yr Adran Adnoddau Dynol.

## 2. YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB AC ARBEDION DRAFFT Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL AR GYFER 2020/21

Cafwyd trosolwg ar y Gyllideb Gwasanaethau Corfforaethol ac Arbedion Drafft 2020/2021, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Polisi a Gwasanaethau Democrataidd

Atgoffwyd y Cynghorwyr fod yr arbedion i'r gyllideb yn y gyfadran Polisi a Gwasanaethau Democrataidd wedi'u cytuno yng Nghyllideb 2019/20 ac nad oedd unrhyw gynigion newydd wedi'u cynnwys. Gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariad cynnydd ac roeddent yn falch bod swyddogion yn hyderus y byddai'r arbedion yn cael eu cyflawni a'u bod ar waith.

Bu rhywfaint o oedi o ran rhoi'r arbedion a nodwyd yn CORP903 ar waith oherwydd y problemau a gafwyd gyda'r ceisiadau am basys bws gan Lywodraeth Cymru a chaiff cynllun diwygiedig ei adrodd nôl i'r Cabinet yn gynnar yn 2020. Roedd y Cynghorwyr yn falch o nodi na fu unrhyw lifoedd pellach yn y galw am adnewyddu pasys bws ond nodwyd eu siom bod Trafnidiaeth i Gymru wedi darparu gwybodaeth anghywir. Canmolwyd staff y Cyngor am y ffordd roeddent wedi ymdrin â'r sefyllfa.

Nododd y pwyllgor mewn perthynas â CORP905 fod gwaith profi'r farchnad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn gwirio'r galw a thybiaethau incwm mewn perthynas â theledu cylch cyfyng ac y byddai achos busnes felly'n dod gerbron y Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Nodwyd bod budd sylweddol i'r system cyfiawnder troseddol yn sgil teledu cylch cyfyng a bod trafodaethau'n parhau gyda Heddlu De Cymru mewn perthynas â'u cyfraniad ariannol nhw i'r gwasanaeth.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Soniodd y pwyllgor am y gostyngiadau staff yn CORP 1001/1002/1003 gan nodi bod yn rhaid i'r Cyngor wneud mwy gyda llai o bobl wrth i adnoddau barhau i leihau. Roedd y Cynghorwyr yn pryderu y gallai cyfraddau absenoldeb salwch oherwydd pwysau gynyddu wrth i'r pwysau ar staff gynyddu.

Gofynnodd y Cynghorwyr a oedd opsiwn i gynhyrchu incwm drwy logi arbenigedd cyfreithiol y Cyngor yn allanol. Esboniwyd bod rheolau cyfreithiol y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw sy'n nodi i bwy y gallwn weithio a hefyd rheolau a chyfyngiadau Cymdeithas y Cyfreithwyr. Oherwydd materion gwrthdaro, cyfyng oedd y gallu i wneud hyn.

Adnoddau Dynol

Nododd y Cynghorwyr fod technoleg ddigidol mewn perthynas â CORP1007/1008 wedi arwain at lai o alw am ofynion rolau trafodiadol.

Cafwyd trafodaeth am rôl Swyddogion Undebau Llafur ar secondiad. Nodwyd bod rhwymedigaeth gyfreithiol i ganiatáu amser rhesymol i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau Undebau Llafur a chyda gweithlu o faint y Cyngor mae'n fwy ymarferol i gael swyddogion ar secondiad. Cydnabu'r Cynghorwyr y berthynas partneriaeth gymdeithasol gyda'r Undebau a chytunwyd mai peth dilys oedd y buddsoddiad yn y rolau hyn.

Holodd y Cynghorwyr am bresenoldeb Adnoddau Dynol mewn ysgolion a chafwyd sicrwydd bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ysgolion i'r lefel ofynnol.

Cyllid

Holodd y Cynghorwyr am yr arbediad o £190k a nodwyd yn CORP1006 ar gyfer lleihau staffio a gofynnwyd am wybodaeth bellach. Esboniwyd bod hyn yn cyfateb i 3 swydd a oedd wedi bod yn wag ers 18 mis ynghyd â 2 ddiswyddiad gwirfoddol a fydd yn digwydd yn 2020/21 a bod y penderfyniad wedi'i wneud i ddileu'r swyddi hyn yn barhaol o'r strwythur staffio.

Arbedion Canolog

Rhoddwyd sicrwydd i'r Cynghorwyr fod modd cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf yn effeithiol drwy ddileu'r 500k a nodwyd yn OTH1001 heb unrhyw effaith ar wasanaethau na dulliau cyflwyno.

Ar ôl ystyried yr Asesiadau Effaith Integredig a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, atgoffwyd y Cynghorwyr y byddai eu sylwadau yn sgil y cyfarfod hwn yn rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y Gyllideb 2020/21. Gofynnwyd iddynt roi gwybod i swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad atodedig fel bod modd eu hystyried.

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Siambr y Cyngor - Canolfan Ddinesig Port Talbot)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, C.Griffiths, D.Griffiths, S.Curran a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaed datganiad o fuddiant gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Steven Phillips | Parthed trefniadau'r dyfodol mewn perthynas â chyfranddaliad Cyngor Castell-nedd Port Talbot yng nghwmnïau Baglan Bay Company Limited a Coed Darcy Limited, gan ei fod yn Gyfarwyddwr y cwmnïau dan sylw. Gan fod ei fuddiant yn rhagfarnol, gadawodd yntau'r ystafell yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny. |

2. **DEWIS EITEMAU PRIODOL O AGENDA'R CABINET (ADRODDIADAU'R CABINET YN AMGAEEDIG AR GYFER YR AELODAU CRAFFU)**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Cynllun Gweithredu'r Cymoedd - Adroddiad Cynnydd

Trafododd yr aelodau'r diffyg cludiant ar hyn o bryd i wasanaethu cymunedau'r cymoedd. Nodwyd bod Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig wedi sefydlu Is-bwyllgor Trafnidiaeth cysgodol yn ddiweddar, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r dyfodol. Er bod angen gwneud llawer o waith yn yr ardal hon, roedd y blociau adeiladau'n cael eu rhoi yn eu lle i wella'r sefyllfa gyfredol.

Trafodwyd deiliadaeth uchel unedau busnes bach yng nghymunedau'r cymoedd, a nododd aelodau'r dyraniad ychwanegol a wnaed yn y rhaglen gyfalaf adfywio er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd ariannu posib.

Trafodwyd enghreifftiau o fentrau cymdeithasol, gan gynnwys y gwasanaeth gofal cartref yn y dyfodol. Byddai'r gwasanaeth yn fwy daearyddol yn y dyfodol, ac yn darparu swyddi lleol i bobl leol. Trafodwyd y gwahaniaeth rhwng y gwasanaeth cymorth cartref (gofal personol lefel isel) a'r gwasanaeth gofal cartref (lefel uwch a pheth gofal meddygol).

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Trefniadau'r Dyfodol mewn perthynas â Chyfranddaliadau Cyngor Castell-nedd Port Talbot yng nghwmïau Baglan Bay Company Limited a Coed Darcy Limited.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, eglurodd swyddogion mai pris y cyfranddaliadau a ddaliwyd gan y cyngor mewn perthynas â Coed Darcy Limited oedd £1.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-2020**

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/2020.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(Siambr y Cyngor - Canolfan Ddinesig Port Talbot)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 12 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd A.N.Woolcock** |
| **Cynghorwyr:** | S.apDafydd, S.E.Freeguard, S.K.Hunt, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac S.H.Reynolds |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, A.Thomas, S.Rees, S.Morris, Wellington, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac A.Wingrave |

---

1. **CRAFFU CYN PENDERFYNIAD**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Ymateb ar y cyd i Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Trafododd yr aelodau gwmpas y Ddeddf mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r gefnogaeth a gynigir yn lleol. Gall dynion a menywod gael mynediad at y gwasanaethau hyn yr un mor hawdd, ac mae nifer o ddynion eisoes wedi derbyn cymorth yn yr ardal leol.

Tueddiad a nodwyd yn ddiweddar oedd cam-drin domestig gan blant tuag at eu rhieni. Gellir cynnig cymorth hefyd i bobl hŷn sydd wedi profi cam-drin emosiynol neu ariannol gan eu partneriaid.

Mae gwaith partneriaeth yn allweddol, a chafodd trinwyr gwallt lleol eu briffio ynghylch ble i gyfeirio dioddefwyr cam-drin domestig/trais posib, oherwydd y gallai rhai cleientiaid fod yn fwy parod i ddweud pethau personol neu rannu gwybodaeth gyda thrinwyr gwallt. Roedd

hyn yn nodi'r dulliau gwahanol y mae angen eu defnyddio i hybu pobl wahanol i gyfaddef.

Enghraifft weithredol arall o weithio mewn partneriaeth oedd yr heddlu, sy'n rhannu gwybodaeth am adroddiadau o gam-drin domestig gydag ysgolion. Gellid monitro a rhoi cymorth i ddisgyblion y mae eu rhieni wedi profi cam-drin domestig dros y penwythnos neu'r gwyliau ysgol lle bo angen.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## 2. BLAENRAGLEN WAITH 2019-20

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/2020.

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Siambr y Cyngor - Canolfan Ddinesig Port Talbot)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 19 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd A.N.Woolcock** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, S.K.Hunt, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac S.H.Reynolds |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, K.Jones, C.Griffiths, A.Thomas, C.Furlow-Harris, S.Griffiths, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

1. **DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Reynolds: Parthed Polisi Hysbysebu a Noddi (papurau Bwrdd y Cabinet) gan mai hi yw cynrychiolydd yr awdurdod ar gyfer sefydliadau trydydd sector amrywiol.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 20 Tachwedd, 9 Rhagfyr 2019 a 10 Ionawr 2020.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Sefydlu Cadetiaid y Maer

Canmolodd yr aelodau ymrwymiad y cyngor at bobl ifanc, a fyddai'n helpu iddynt gael profiadau yn y dyfodol.

Nododd yr aelodau y penodir tri chadét y Maer ar gyfer pob blwyddyn ddinesig o fis Mai 2020. Byddai'r rhain yn cael eu dewis o aelodau'r fyddin, y llynges frenhinol a Chadetiaid yr Awyrlu Brenhinol. Byddai darn o waith yn cael ei gynnal ar gyfer estyn y cyfrifoldeb i gynnwys cadetiaid eraill, megis yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaeth tân.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Polisi Hysbysebu a Noddi

Trafodwyd cwmpas y polisi yn unol â chaffael corfforaethol/moesegol, tendro a chreu incwm. Trafodwyd y trefniadau presennol ynghylch noddi cylchfannau ac a fyddai'r trefniadau hyn yn parhau neu'n cael eu cyflawni'n fewnol ar ddiwedd cyfnod y contract cyfredol.

Roedd y pynciau eraill a drafodwyd yn cynnwys:

- Ceisiadau cynllunio a chaniatâd priffyrdd
- Cydweithio â sefydliadau trydydd sector
- Sicrhau bod hysbysebu'n parchu'r amgylchedd.

Oherwydd newidiadau diweddar i bortffolio aelodau'r Cabinet, nododd yr aelodau y dylid newid y cyfeiriadau at y Dirprwy Arweinydd yn y polisi, fel y manylwyd yn nhudalen 53 adroddiad Bwrdd y Cabinet a ddosbarthwyd o 'Ddirprwy Arweinydd' i 'Aelod y Cabinet Dros Gyllid'.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/2020.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Siambr y Cyngor - Canolfan Ddinesig Port Talbot)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 19 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd A.N.Woolcock** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, S.K.Hunt, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac S.H.Reynolds |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, K.Jones, C.Griffiths, A.Thomas, C.Furlow-Harris, S.Griffiths, C.Davies a/ac T.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

1. **DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Reynolds: Parthed Polisi Hysbysebu a Noddi (papurau Bwrdd y Cabinet) gan mai hi yw cynrychiolydd yr awdurdod ar gyfer sefydliadau trydydd sector amrywiol.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 20 Tachwedd, 9 Rhagfyr 2019 a 10 Ionawr 2020.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Sefydlu Cadetiaid y Maer

Canmolodd yr aelodau ymrwymiad y cyngor at bobl ifanc, a fyddai'n helpu iddynt gael profiadau yn y dyfodol.

Nododd yr aelodau y penodir tri chadét y Maer ar gyfer pob blwyddyn ddinesig o fis Mai 2020. Byddai'r rhain yn cael eu dewis o aelodau'r fyddin, y llynges frenhinol a Chadetiaid yr Awyrlu Brenhinol. Byddai darn o waith yn cael ei gynnal ar gyfer estyn y cyfrifoldeb i gynnwys cadetiaid eraill, megis yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans a'r gwasanaeth tân.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Polisi Hysbysebu a Noddi

Trafodwyd cwmpas y polisi yn unol â chaffael corfforaethol/moesegol, tendro a chreu incwm. Trafodwyd y trefniadau presennol ynghylch noddi cylchfannau ac a fyddai'r trefniadau hyn yn parhau neu'n cael eu cyflawni'n fewnol ar ddiwedd cyfnod y contract cyfredol.

Roedd y pynciau eraill a drafodwyd yn cynnwys:

- Ceisiadau cynllunio a chaniatâd priffyrdd
- Cydweithio â sefydliadau trydydd sector
- Sicrhau bod hysbysebu'n parchu'r amgylchedd.

Oherwydd newidiadau diweddar i bortffolio aelodau'r Cabinet, nododd yr aelodau y dylid newid y cyfeiriadau at y Dirprwy Arweinydd yn y polisi, fel y manylwyd yn nhudalen 53 adroddiad Bwrdd y Cabinet a ddosbarthwyd o 'Ddirprwy Arweinydd' i 'Aelod y Cabinet Dros Gyllid'.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

## 4. <u>BLAENRAGLEN WAITH 2019-20</u>

Nododd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/2020.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O Bell Trwy Teams)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 30 Gorffennaf 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, A.Llewelyn, S.Miller, J.D.Morgan, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, C.Furlow-Harris, T.Davies, S.Curran, R.Headon, A.James, C.Plowman, D.Griffiths a/ac S.Blewett |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac A.Wingrave |
| **Arsylwyr:** | H.Neary |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Reynolds: Parthed cynllun 'Safe and Well' CNPT – Cymorth dyngarol a ddarparwyd gan y cyngor mewn ymateb i bandemig COVID-19 (papurau'r Cabinet), gan mai hi yw rheolwr gweithredol gwirfoddol Canolfan Maerdy ac mae'n un o'r ymddiriedolwyr

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020

Croesawodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2019-2020.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed, o edrych ar yr ystadegau, fod nifer y staff a gofrestrodd i ddysgu Cymraeg wedi cynyddu.

Gofynnwyd a fyddai effeithiau COVID-19, yn arbennig adleoli staff, yn cael effaith gyffredinol ar y gwaith yr oedd Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd swyddogion fod y pandemig yn effeithio ar waith y grŵp; canslwyd cyfarfodydd y grŵp a chafodd rhai o'r swyddogion dan sylw eu hadleoli. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai swyddogion wedi dechrau dychwelyd i'w swyddi go iawn, ac roedd cynlluniau ar waith i gynnal cyfarfod ym mis Medi lle byddai'r grŵp yn trafod canlyniadau'r adolygiad o'r ymarfer siopwr dirgel, gwerthusiadau o'r hyfforddiant a dderbyniodd rheolwyr atebol ym mis Mawrth 2020 a'r rhaglen waith wedi'i hail-flaenoriaethu am weddill y flwyddyn.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd dywedwyd bod yr achosion o COVID-19 yn golygu y gwnaed newidiadau sylweddol i'r ffordd yr oedd y cyngor yn gweithredu ac oherwydd y sgiliau ieithyddol mewnol cyfyngedig, effeithiwyd ar allu'r cyngor i ddarparu cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ei am gyfnod o amser. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cynnydd wedi'i wneud ers hynny a bod y cyngor bellach yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddatganiadau i'r wasg ac wedi ailddechrau cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg; lle byddai post yn cael ei rannu gan drydydd parti, a oedd ar gael yn Saesneg yn unig, byddai staff yn ychwanegu sylwadau priodol yn Gymraeg ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg. Soniodd swyddogion hefyd fod fideo 'Buy Local Welcome Back to Pontardawe' CNPT yn cynnwys perchnogion siopau Cymraeg a Saesneg a darparwyd isdeitlau ar gyfer y ddwy iaith. Cadarnhawyd hefyd fod y cyfrifon Cymraeg yn cael eu monitro ar gyfer negeseuon a lle'r oedd angen ymateb, byddai'n cael ei ddarparu yn Gymraeg. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r darn nesaf o waith allweddol fyddai edrych ar dudalennau COVID-19 ar wefan y cyngor, lle'r oedd archwiliad eisoes wedi dechrau i ddileu gwybodaeth nad oedd yn berthnasol; byddai'r wybodaeth sy'n gorfod aros ar y wefan yn cael ei chyfieithu'n dilyn hyn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>'Safe and Well' CNPT – Cymorth dyngarol a ddarparwyd gan y cyngor mewn ymateb i'r pandemig COVID-19</u>

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r rheini a oedd â hawl i gael cymorth gan y gwasanaeth 'Safe and Well', yn dilyn pryder yr Aelodau nad oedd y rhestr cymhwysedd yn cynnwys cleifion iechyd meddwl, yn arbennig y cleifion nad oeddent wedi derbyn llythyr gwarchod gan y GIG. Nodwyd gan fod unigolion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth Safe and Well bellach yn cael eu trosglwyddo, a'u bod yn bobl yr oedd gan staff bryderon amdanynt, fod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â hyn i sicrhau bod cymorth priodol ar gael. Gofynnwyd i'r Aelodau gyfeirio unrhyw unigolion yr oeddent yn pryderu amdanynt, at eu harweinwyr cymunedol. Ychwanegodd swyddogion, gan fod posibilrwydd y byddai angen darparu rhagor o gefnogaeth, y byddai staff yn edrych ar eu cynllunio wth gefn yn yr hydref; felly, pe bai Aelodau'n credu bod grwpiau o bobl wedi'u colli oddi ar y meini prawf, byddai swyddogion yn fodlon ystyried eu hadborth a'i gynnwys yn y cynllunio rhag rhaid.

Gofynnodd yr Aelodau a allai swyddogion ymhelaethu ar y mater o recriwtio cydlynydd gwirfoddolwyr. Dywedwyd na fwriedir i'r cydlynydd gwirfoddolwyr ddisodli'r arweinwyr cymunedol, yn hytrach bydd y cydlynydd gwirfoddolwyr yn rhyddhau rheolwr y gwasanaeth ieuenctid o'r gefnogaeth y bu'n ei darparu i'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd dros y misoedd diwethaf. Hysbyswyd yr Aelodau fod 200 o wirfoddolwyr gweithredol yn gweithio yn y gwasanaeth a bod angen i rywun barhau â rôl y cydlynydd gwirfoddolwyr ym mis Hydref pan fyddai rheolwr y gwasanaeth ieuenctid yn dychwelyd i'w ddyletswyddau arferol gan y byddai'r rôl yn sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn dal i gael cymorth. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddent yn ystyried datblygu cynigion ar rôl barhaus gwirfoddolwyr o fewn y cyngor rhwng nawr a mis Hydref ac y byddai Aelodau'n derbyn y cynigion hyn maes o law i'w hystyried. O ran yr arweinwyr cymunedol, soniwyd bod rhai wedi dychwelyd i'w swyddi go iawn, ond bod staff wedi bod yn ceisio cynnal y ddarpariaeth yn y cymunedau wrth i'r cyfnod trawsnewid ddigwydd. Cadarnhawyd y byddai swyddogion yn treulio amser yn trafod yr opsiynau sy'n ymwneud â disodli'r arweinwyr cymunedol ac y byddent yn rhoi cynllun ar waith, y byddent yn ymgynghori â'r Aelodau yn ei gylch, gan fod y swyddogion wedi ystyried yr adborth a gafwyd o'r Arolwg Aelodau mewn perthynas â chroesawu cydlynu ar lefel gymunedol. Ychwanegwyd bod Cam Adfer Coronafeirws y Panel Aelodau wedi sefydlu gweithdy ym mis Medi gyda'r gobaith o sefydlu argymhellion clir.

Amlygodd yr adroddiad fod y gwasanaeth dosbarthu bwyd yn cael ei oedi ar 16 Awst 2020, a gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n cael ei ailddechrau ac a oedd y cyngor yn bwriadu i hyn ddigwydd. Cadarnhawyd bod y Prif Swyddog Meddygol wedi dweud bod y cyfraddau heintio ar hyn o bryd yn ddigon isel i roi hyder iddo y gellid llacio rhai o'r cyfyngiadau y gofynnwyd i unigolion a oedd yn gwarchod gydymffurfio â hwy, ym mis Awst; fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd yn Lloegr bu cynnydd mewn cyfraddau heintio a oedd yn golygu y gofynnwyd i rai unigolion a fu'n gwarchod yn flaenorol ailgyflwyno rhai o'r cyfyngiadau. Soniwyd bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r gair 'oedi' yn hytrach na 'stopio' gan ein bod yn dal i fod yng nghanol y pandemig a gallai cyfraddau heintio godi eto. O ran y gwasanaeth bwyd, nodwyd nad oedd gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ailgyflwyno'r gwasanaeth dosbarthu bwyd cenedlaethol am ddim, felly roedd angen i'r cyngor wneud cynlluniau lleol pendant i gefnogi pobl y gallai fod gofyn iddynt roi eu hunain dan gyfyngiadau pellach, pe bai cychwyniad bach neu fawr yn y cyfnod sy'n arwain at yr hydref. Cadarnhaodd swyddogion eu bod eisoes wedi dechrau ystyried hyn a'u bod yn gobeithio cael cynlluniau at raid ar gyfer gwahanol senarios yn barod ar gyfer diwedd mis Awst; ychwanegwyd bod siopau lleol bellach mewn sefyllfa wahanol, ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth, i ddarparu cymorth.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 4, y tabl gwersi a ddysgwyd, a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a gofynnwyd a fyddai unrhyw weithredu o ran dileu'r ymagwedd gorchymyn a rheoli, gan fod ei dileu, oherwydd y pandemig, wedi grymuso staff ac wedi annog meddwl mwy creadigol. Nodwyd y byddai swyddogion yn darparu cynllun gweithredu manylach yn erbyn yr holl elfennau a gynhwysir yn y tabl gwersi a ddysgwyd a'u bod yn dal i gael adborth a fyddai'n cael ei gynnwys yn y blaengynllunio ar gyfer yr hydref. Ychwanegwyd bod yr elfennau'n perthyn i ddau gategori cyffredinol:

1. Camau gweithredu y byddai angen eu cwblhau ar unwaith oherwydd yr angen i lywio cynlluniau ar gyfer yr hydref a'r posibilrwydd y gallai fod cynnydd mewn heintiau.

2. Newidiadau tymor hwy i'w datblygu, yn arbennig sut byddai diwylliant y cyngor yn cael ei ddatblygu

Gofynnwyd i swyddogion a oedd penderfyniad wedi'i wneud, yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd, mewn perthynas â sut y byddai'r Cydlynwyr Ardaloedd Lleol (CALl) yn cael eu defnyddio. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r adborth a dderbyniodd Aelodau

wedi dweud bod cydlynu ar lefel ardal leol wedi bod yn wirioneddol bwysig; cafwyd trafodaethau byr ar rôl y CALl yng Ngham Adfer Coronafeirws y Panel Aelodau ac roedd swyddogion wedi cyfarfod i nodi pa fath o gynigion y gellid eu llunio. Ychwanegodd swyddogion fod trafodaeth bellach wedi'i chynllunio yn y Panel Aelodau a'r Gweithdy Aelodau, i edrych ar rôl y CALl a lle byddai ymdrech ehangach y cyngor yn ymwneud â datblygu cymunedol, gan ystyried yr adborth o'r gwersi a ddysgwyd gan y Gwasanaeth 'Safe and Well' a'r hyn yr oedd yr Aelodau wedi'i fynegi.

Rhoddwyd canmoliaeth i'r cydlynwyr ardal am eu gwaith caled, effeithiolrwydd y Gwasanaeth 'Safe and Well', gwaith RADAR a pha mor dda y gweithiodd Age Cymru Gorllewin Morgannwg ac Age Connect gyda'i gilydd cyn sefydlu'r Gwasanaeth 'Safe and Well', ac yn ystod yr amser hwnnw.

Trafododd y pwyllgor yn fyr y galwadau ffôn a wnaed i'r rheini a oedd yn gwarchod nad oeddent wedi cysylltu drwy'r Gwasanaeth 'Safe and Well'. Mewn perthynas â hyn, nodwyd bod y rhan fwyaf o'r unigolion y cysylltwyd â hwy wedi cadarnhau bod ganddynt gefnogaeth ar waith a olygai mai dim ond nifer bach o unigolion a atgyfeiriwyd o ganlyniad i'r galwadau ffôn. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith ei bod hi'n amlwg bod yr unigolion hyn wedi croesawu'r galwadau ac roedd staff wedi crybwyll ei bod wedi cymryd amser hir i weithio drwy'r rhestr alwadau oherwydd faint o amser yr oeddent yn ei dreulio ar y ffôn; roedd hyn yn rhywbeth y byddai angen ei ystyried, ac o bosib sut byddai cymunedau'n gallu cefnogi pobl yn y sefyllfa hon.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet

<u>Strategaeth Adfer</u>

Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a oedd ynghlwm wrth baratoi'r Strategaeth Adfer a gwaith caled, ymrwymiad a hyblygrwydd gweithlu'r cyngor.

Trafodwyd gweithio yn y dyfodol, yn arbennig yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio o bell a mynychu swyddfeydd y cyngor, gan gofio ffactorau economaidd ac amgylcheddol, pwysigrwydd cymunedau a gwerth llywodraeth leol. Dywedodd swyddogion, o ran proses, y sefydlwyd y Panel Aelodau i ddarparu'r math hwn o gyngor i'r Cabinet, wrth i'r cyngor gynllunio'r cynlluniau adfer tymor hwy, ac y gellid defnyddio'r Panel i ddechrau ffordd o feddwl mewn perthynas â thrafodaethau ehangach. Nodwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd

yn nodi'r cyfnod sefydlogi, lle'r oedd gwasanaethau'r cyngor yn cael eu hailgychwyn a sicrhau bod y trefniadau Profi, Olrhain a Diogelu yn lleol ac yn rhanbarthol yn addas at y diben. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi darlun o'r hyn a ddigwyddodd hyd yma a sefyllfa bresennol y cyngor ac y bydd angen cynllunio pellach ar gyfer adferiad wrth symud ymlaen.

Nodwyd nad oedd digon o bwyslais yn yr adroddiad ar waith yr hyrwyddwyr cymunedol, sefydliadau, cynghorau cymuned a phartneriaid eraill ac y byddai'r grwpiau hyn yn hanfodol wrth symud ymlaen. Dywedodd swyddogion nad oedd yr adroddiad yn ceisio gwerthuso'r ymateb cymunedol gan fod hwn yn ddarn o waith yr oedd y Panel Aelodau wedi cytuno i'w wneud; roedd ymchwilydd allanol wedi'i gomisiynu i ddysgu gan y gymuned a chlywed eu barn ynghylch y ffordd y paratowyd yr ymateb. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y cyngor ddiddordeb mewn deall sut y gellid annog hyn i barhau.

Tynnodd y Cynghorydd Woolcock sylw at aelodaeth y Panel a'r gorgyffwrdd sylweddol ag aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Cabinet. Cytunwyd y byddai swyddogion yn rhoi cyngor i Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 25 Mehefin 2020** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.apDafydd, S.E.Freeguard, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, K.Jones, H.Jenkins, A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.Morris, M.Roberts, C.Furlow-Harris, D.Griffiths, C.Jones, S.Curran, A.Manchipp, C.Plowman, T.Davies a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Harvey | Parthed 'Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach' (papurau'r Cabinet), gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Heddlu De Cymru. |

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Diweddariad a Monitro Cyllideb 2020 - 2021

Trafodwyd y gyllideb yn unol ag effaith bresennol COVID–19 a'r anawsterau a ragwelwyd ar gyfer pennu cyllideb ar gyfer 2021 – 2022.

Mynegwyd pryderon ynghylch a fyddai'r awdurdod yn cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â chadw lefel ddigonol o arian wrth gefn gan fod rhai awdurdodau'n ystyried cyhoeddi hysbysiadau Adran 114. Holwyd a fyddai'r awdurdod lleol yn cynyddu arian wrth gefn yn naturiol dros amser neu a fyddai Llywodraeth Cymru yn llenwi'r bwlch gydag arian ychwanegol. Esboniodd swyddogion y sefyllfa ariannol o fis Mawrth i fis Mehefin i'r Aelodau, gan fanylu ar y sefyllfa o ran hawliadau a oedd eisoes wedi'u had-dalu a hawliadau mae'r awdurdod lleol yn dal i aros am ymateb arnynt. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y tybir yn yr adroddiad y bydd £2m yn cael ei ad-dalu ond y gobaith yw y byddai'r £4.2m llawn yn cael ei dderbyn, sy'n golygu y byddai'r diffyg ariannol o £10.8m yn lleihau. Sicrhawyd yr Aelodau y byddai diweddariadau pellach yn cael eu darparu drwy gydol y flwyddyn ac y bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro.

Holodd yr Aelodau a fyddent yn derbyn seminarau cyllideb i helpu i bennu'r gyllideb. Esboniodd swyddogion na fyddai'r seminarau'n debygol o gael eu cynnal cyn mis Medi/Hydref 2020 oherwydd y galw presennol ar swyddogion oherwydd COVID-19.

Sicrhawyd yr Aelodau y byddai'r cyngor yn mynd ar ôl cyllid Cyngor y Celfyddydau i gefnogi'r gorwariant rhagweladwy ar Theatr y Dywysoges Frenhinol a Theatr Canolfan Celfyddydau Pontardawe. Rhoddwyd sicrwydd hefyd mewn perthynas â'r tanwariant yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn oherwydd nad oedd yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu recriwtio yn ystod pandemig COVID-19.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y disgwyliad y bydd gwasanaethau'n ailddechrau fel arfer yn ystod yr achosion diweddar o COVID-19, fodd bynnag, hysbyswyd y pwyllgor nad oedd hynny'n wir.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.
Perthnasoedd Iachach ar gyfer Cymunedau Cryfach

Croesawodd yr Aelodau'r Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch agwedd cydlyniant cymunedol y strategaeth a'r ffaith y byddai hyn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Holodd yr Aelodau am hyn oherwydd roeddent o'r farn y byddai'n anodd hyrwyddo cydlyniant cymunedol heb fod cydlyniant cymunedol yn bresennol yn y lle cyntaf. Holodd yr Aelodau sut y byddai'r strategaeth hon yn cysylltu â strategaethau eraill i sicrhau bod cydlyniant cymunedol yn cael ei hyrwyddo. Croesawodd swyddogion yr adborth a thynnwyd sylw at y ffaith mai bwriad y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yw cynyddu ymwybyddiaeth o drais domestig ar draws y gymuned gyfan. Nodwyd y byddai camau gweithredu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn y strategaeth yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Hysbyswyd yr Aelodau mai strategaeth ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol oedd y strategaeth. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi darparu mân ddiwygiadau i'r strategaeth yn dilyn cyflwyno'r strategaeth gerbron y Cabinet. Felly, gofynnwyd i aelodau ystyried argymhelliad ychwanegol sy'n rhoi awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd i gymeradwyo unrhyw fân ddiwygiadau.

Yn dilyn gwaith craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol fel y manylir uchod.

<u>Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot (CDLl) 2011 - 2026</u>

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith mai mân sylwadau oedd gan Aelodau Pwyllgor Craffu'r Cabinet i'w gwneud mewn perthynas ag Adroddiad Adolygu Drafft y Cynllun Datblygu Lleol, fodd bynnag byddai'r prif drafodaeth yn cael ei chynnal gyda'r cyngor.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch amserlen yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Er bod dechrau'r adolygiad yn ffurfiol wedi'i ohirio'n ffurfiol oherwydd COVID–19, sicrhawyd yr Aelodau bod gwaith ar y sylfaen dystiolaeth wedi cychwyn ac y byddai Aelodau'n cael eu hannog i ymgysylltu â'r swyddogion i gefnogi proses yr adolygiad. Nodwyd y byddai'r broses adolygu lawn yn cymryd 3 blynedd a hanner i'w chwblhau.

Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio sylw'r aelodau at y ffaith y bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â Thai Amlfeddiannaeth.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET**

**(Remotely via Teams)**

| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Iau, 23 Gorffennaf 2020** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | S.Phillips, K.Jones, H.Jenkins, C.Griffiths, H.Jones, I.Vaugh, D.Hopkins, N.Thomas, A.Harding, S.Curran, T.Davies, A.Manchipp, C.Plowman a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees |

---

1. **STRATEGAETH ADFERIAD**

Cyflwynwyd strategaeth ddrafft ar sefydlogi i'r Aelodau, sef y cyfnod rhwng ymateb ac adferiad yn dilyn cychwyniad COVID-19. Roedd y strategaeth yn cynnwys fframwaith cyffredinol a fyddai'n cefnogi ymagwedd gyson a chydlynus wrth i'r cyngor symud tuag at adferiad. Nodwyd bod y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r holl Bwyllgorau Craffu er mwyn iddynt wneud sylwadau cyn ei chyflwyno i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf 2020 i'w chymeradwyo.

Rhoddodd swyddogion drosolwg cryno o gynnwys y strategaeth, gan esbonio ei bod wedi'i rhannu'n dair adran a oedd yn cynnwys edrych yn ôl ar yr hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y cyfnod ymateb i'r argyfwng, edrych at y dyfodol wrth i'r DU symud o'r cyfnod ymateb a map ffordd o gamau gweithredu.

Nodwyd bod trydedd ran y strategaeth yn cael ei chyflwyno fel map ffordd o gamau gweithredu - roedd yn dilyn trefn system goleuadau

traffig ac yn nodi sut i symud ymlaen o'r cyfnod dan gyfyngiadau symud llwyr, drwy'r system goleuadau traffig i sefyllfa lle gall gwasanaethau weithredu unwaith eto.

Amlygwyd mai'r prif reswm dros yr adroddiad hwn oedd rhoi cyd-destun ar gyfer sefyllfa bresennol pob cyfarwyddiaeth a'r hyn roeddent wedi'i wneud yn ystod y pandemig. Manylwyd ar hyn yng nghyflwyniad pob cyfarwyddiaeth.

Mynegwyd pryder am y gwrthdaro rhwng trefniadau aelodaeth pwyllgor craffu'r cabinet ac aelodau'r panel adferiad. Bydd swyddogion yn archwilio hyn yn fanylach ac yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y diweddaraf am faterion ariannol yn dilyn cychwyniad diweddar COVID-19. Nodwyd y byddai adroddiad cyllideb pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi a fydd yn manylu ar y sefyllfa ariannol arfaethedig ar gyfer gweddill 2020-2021 ac yn egluro cyfleoedd ariannu pellach.

Cafwyd trafodaethau ynghylch sicrhau bod y cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd yn gywir. Nodwyd bod cynnwys y cyhoedd yn hanfodol ac felly byddai prif bwyntiau'r adroddiad a oedd yn ymwneud â chyfathrebu'n cael eu hegluro cyn eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Nodwyd efallai y byddai Pwyllgor Craffu'r Cabinet yn dymuno cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu Blaenraglen Waith er mwyn craffu ymhellach a gweld yr effeithiau y mae COVID-19 wedi'u cael ar feysydd megis yr economi a chydraddoldebau.

Edrychodd Aelodau ymlaen at gael y diweddaraf am fonitro'r strategaeth yn sesiynau'r dyfodol.

## 2. CYLLID A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL - CYNLLUNIAU CYFLENWI AC ADFER GWASANAETHAU CYFREDOL

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol drosolwg cryno o'r gwaith a wnaed gan y gyfarwyddiaeth yn ystod pandemig COVID-19.

Caiff aelodau eu diweddaru'n rheolaidd am gylch y gyllideb flynyddol yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu. Rhoddwyd gwybodaeth iddynt am yr effaith a gafwyd ar y gwasanaethau canlynol oherwydd pandemig COVID-19 a'r galw am y gwasanaethau hynny:

- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Adnoddau Dynol a
- Gwasanaethau Ariannol.

Canmolwyd y Gwasanaethau Cyfreithiol am barhau i gael y diweddaraf am newidiadau i ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnodau digynsail hyn, i sicrhau bod y cyngor yn gweithio'n effeithlon.

Nodwyd bod y cyngor wedi parhau i dalu'r holl staff yn ystod y pandemig hwn ac wedi rhoi cymorth i fusnesau gyda'u hardrethi busnes.

Canmolwyd y staff gan Gadeirydd y Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu am safon eu gwaith ac am roi cefnogaeth i'r pwyllgor er mwyn ei gynnal o bell.

Nododd y pwyllgor y diweddariad.

3. **POLISI, GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A DIGIDOL - CYNLLUNIAU CYFLENWI AC ADFER GWASANAETHAU CYFREDOL (I DDILYN)**

Derbyniodd aelodau gyflwyniad am y cyflwyniad gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd a'r cynlluniau adferiad ar gyfer y gwasanaethau polisi, democrataidd a digidol, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

Nodwyd bod gwasanaethau megis y Tîm Cyfathrebiadau wedi gorfod cynyddu oriau a hyd eu hwythnos gwaith i ateb y galw.

Amlygwyd bod pandemig COVID-19 wedi rhoi llawer o syniadau newydd i fusnesau y gallant eu defnyddio, megis roedd y Tîm Cyfathrebiadau'n postio fideos ar-lein, yn darparu arwyddion yn y fwrdeistref sirol ac yn cadw mewn cysylltiad â'r cyhoedd drwy alwadau ffôn yn ogystal â thrwy gyhoeddi’u datganiadau arferol i'r wasg.

Roedd y galw wedi bod yn uchel hefyd yn Adran y Gwasanaethau Digidol wrth sicrhau bod y gweithlu'n gallu gweithio gartref. Roeddent

wedi darparu gwasanaethau ar-lein er mwyn ateb y galw megis ar wefan leol, drwy'r Chat Bot, Chat Live a thrwy roi cyngor gyda Threth y Cyngor ar-lein.

Rhoddwyd y diweddaraf i aelodau am y gwaith a wnaed gan yr Adran Gwasanaethau Democrataidd i sicrhau y gellid cynnal cyfarfodydd pwyllgor o bell. Roeddent yn rhoi'r cyngor a'r arweiniad diweddaraf am newidiadau i aelodau'n rheolaidd drwy alwadau lles, camau gweithredu brys a gwefan holi ac ateb. Fe'u canmolwyd am alluogi i gyfarfodydd o bell fynd yn eu blaenau ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei diwygio, a nodwyd mai Castell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod cyntaf i gynnal cyfarfod o'r cyngor o bell.

Pwysleisiwyd y cydweithio a gafwyd rhwng adrannau gwahanol ac fe'i hanogwyd ar gyfer y dyfodol.

Nodwyd bod dyletswyddau'r Gymraeg wedi'u llacio oherwydd effaith COVID-19 ar y gweithlu, fodd bynnag mae swyddogion yn gweithio i ailddechrau gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol agos.

Cafwyd trafodaethau am sut y bydd blaenoriaethau'n wahanol yn y dyfodol oherwydd effaith COVID-19. Nodwyd bod y pwyllgor craffu'n canolbwyntio ar flaenoriaethu'r hyn sy’n bwysig iddo’i ystyried yn ei Flaenraglen Waith, megis y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd aelodau'n falch o nodi'r diweddariadau gan bob Cyfarwyddiaeth a chytunwyd y byddai sesiwn ar y Blaenraglen Waith yn cael ei threfnu ar gyfer yr hydref er mwyn canolbwyntio ar y prif bynciau a drafodwyd yn y cyflwyniadau i helpu gyda'r cam adferiad.

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Iau, 30 Gorffennaf 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, A.Llewelyn, S.Miller, J.D.Morgan, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, C.Furlow-Harris, T.Davies, S.Curran, R.Headon, A.James, C.Plowman, D.Griffiths a/ac S.Blewett |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac A.Wingrave |
| **Arsylwyr:** | H.Neary |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

Y Cynghorydd S Reynolds: Parthed cynllun 'Safe and Well' CNPT – Cymorth dyngarol a ddarparwyd gan y cyngor mewn ymateb i bandemig COVID-19 (papurau'r Cabinet), gan mai hi yw rheolwr gweithredol gwirfoddol Canolfan Maerdy ac mae'n un o'r ymddiriedolwyr

## 2. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020

Croesawodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2019-2020.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed, o edrych ar yr ystadegau, fod nifer y staff a gofrestrodd i ddysgu Cymraeg wedi cynyddu.

Gofynnwyd a fyddai effeithiau COVID-19, yn arbennig adleoli staff, yn cael effaith gyffredinol ar y gwaith yr oedd Grŵp Swyddogion y Gymraeg wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd swyddogion fod y pandemig yn effeithio ar waith y grŵp; canslwyd cyfarfodydd y grŵp a chafodd rhai o'r swyddogion dan sylw eu hadleoli. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai swyddogion wedi dechrau dychwelyd i'w swyddi go iawn, ac roedd cynlluniau ar waith i gynnal cyfarfod ym mis Medi lle byddai'r grŵp yn trafod canlyniadau'r adolygiad o'r ymarfer siopwr dirgel, gwerthusiadau o'r hyfforddiant a dderbyniodd rheolwyr atebol ym mis Mawrth 2020 a'r rhaglen waith wedi'i hail-flaenoriaethu am weddill y flwyddyn.

Yn yr adroddiad a ddosbarthwyd dywedwyd bod yr achosion o COVID-19 yn golygu y gwnaed newidiadau sylweddol i'r ffordd yr oedd y cyngor yn gweithredu ac oherwydd y sgiliau ieithyddol mewnol cyfyngedig, effeithiwyd ar allu'r cyngor i ddarparu cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ei am gyfnod o amser. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cynnydd wedi'i wneud ers hynny a bod y cyngor bellach yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddatganiadau i'r wasg ac wedi ailddechrau cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg; lle byddai post yn cael ei rannu gan drydydd parti, a oedd ar gael yn Saesneg yn unig, byddai staff yn ychwanegu sylwadau priodol yn Gymraeg ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg. Soniodd swyddogion hefyd fod fideo 'Buy Local Welcome Back to Pontardawe' CNPT yn cynnwys perchnogion siopau Cymraeg a Saesneg a darparwyd isdeitlau ar gyfer y ddwy iaith. Cadarnhawyd hefyd fod y cyfrifon Cymraeg yn cael eu monitro ar gyfer negeseuon a lle'r oedd angen ymateb, byddai'n cael ei ddarparu yn Gymraeg. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r darn nesaf o waith allweddol fyddai edrych ar dudalennau COVID-19 ar wefan y cyngor, lle'r oedd archwiliad eisoes wedi dechrau i ddileu gwybodaeth nad oedd yn berthnasol; byddai'r wybodaeth sy'n gorfod aros ar y wefan yn cael ei chyfieithu'n dilyn hyn.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>'Safe and Well' CNPT – Cymorth dyngarol a ddarparwyd gan y cyngor mewn ymateb i'r pandemig COVID-19</u>

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r rheini a oedd â hawl i gael cymorth gan y gwasanaeth 'Safe and Well', yn dilyn pryder yr Aelodau nad oedd y rhestr cymhwysedd yn cynnwys cleifion iechyd meddwl, yn arbennig y cleifion nad oeddent wedi derbyn llythyr gwarchod gan y GIG. Nodwyd gan fod unigolion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth Safe and Well bellach yn cael eu trosglwyddo, a'u bod yn bobl yr oedd gan staff bryderon amdanynt, fod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â hyn i sicrhau bod cymorth priodol ar gael. Gofynnwyd i'r Aelodau gyfeirio unrhyw unigolion yr oeddent yn pryderu amdanynt, at eu harweinwyr cymunedol. Ychwanegodd swyddogion, gan fod posibilrwydd y byddai angen darparu rhagor o gefnogaeth, y byddai staff yn edrych ar eu cynllunio wth gefn yn yr hydref; felly, pe bai Aelodau'n credu bod grwpiau o bobl wedi'u colli oddi ar y meini prawf, byddai swyddogion yn fodlon ystyried eu hadborth a'i gynnwys yn y cynllunio rhag rhaid.

Gofynnodd yr Aelodau a allai swyddogion ymhelaethu ar y mater o recriwtio cydlynydd gwirfoddolwyr. Dywedwyd na fwriedir i'r cydlynydd gwirfoddolwyr ddisodli'r arweinwyr cymunedol, yn hytrach bydd y cydlynydd gwirfoddolwyr yn rhyddhau rheolwr y gwasanaeth ieuenctid o'r gefnogaeth y bu'n ei darparu i'r gwirfoddolwyr a recriwtiwyd dros y misoedd diwethaf. Hysbyswyd yr Aelodau fod 200 o wirfoddolwyr gweithredol yn gweithio yn y gwasanaeth a bod angen i rywun barhau â rôl y cydlynydd gwirfoddolwyr ym mis Hydref pan fyddai rheolwr y gwasanaeth ieuenctid yn dychwelyd i'w ddyletswyddau arferol gan y byddai'r rôl yn sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn dal i gael cymorth. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddent yn ystyried datblygu cynigion ar rôl barhaus gwirfoddolwyr o fewn y cyngor rhwng nawr a mis Hydref ac y byddai Aelodau'n derbyn y cynigion hyn maes o law i'w hystyried. O ran yr arweinwyr cymunedol, soniwyd bod rhai wedi dychwelyd i'w swyddi go iawn, ond bod staff wedi bod yn ceisio cynnal y ddarpariaeth yn y cymunedau wrth i'r cyfnod trawsnewid ddigwydd. Cadarnhawyd y byddai swyddogion yn treulio amser yn trafod yr opsiynau sy'n ymwneud â disodli'r arweinwyr cymunedol ac y byddent yn rhoi cynllun ar waith, y byddent yn ymgynghori â'r Aelodau yn ei gylch, gan fod y swyddogion wedi ystyried yr adborth a gafwyd o'r Arolwg Aelodau mewn perthynas â chroesawu cydlynu ar lefel gymunedol. Ychwanegwyd bod Cam Adfer Coronafeirws y Panel Aelodau wedi sefydlu gweithdy ym mis Medi gyda'r gobaith o sefydlu argymhellion clir.

Amlygodd yr adroddiad fod y gwasanaeth dosbarthu bwyd yn cael ei oedi ar 16 Awst 2020, a gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n cael ei ailddechrau ac a oedd y cyngor yn bwriadu i hyn ddigwydd. Cadarnhawyd bod y Prif Swyddog Meddygol wedi dweud bod y cyfraddau heintio ar hyn o bryd yn ddigon isel i roi hyder iddo y gellid llacio rhai o'r cyfyngiadau y gofynnwyd i unigolion a oedd yn gwarchod gydymffurfio â hwy, ym mis Awst; fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd yn Lloegr bu cynnydd mewn cyfraddau heintio a oedd yn golygu y gofynnwyd i rai unigolion a fu'n gwarchod yn flaenorol ailgyflwyno rhai o'r cyfyngiadau. Soniwyd bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r gair 'oedi' yn hytrach na 'stopio' gan ein bod yn dal i fod yng nghanol y pandemig a gallai cyfraddau heintio godi eto. O ran y gwasanaeth bwyd, nodwyd nad oedd gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ailgyflwyno'r gwasanaeth dosbarthu bwyd cenedlaethol am ddim, felly roedd angen i'r cyngor wneud cynlluniau lleol pendant i gefnogi pobl y gallai fod gofyn iddynt roi eu hunain dan gyfyngiadau pellach, pe bai cychwyniad bach neu fawr yn y cyfnod sy'n arwain at yr hydref. Cadarnhaodd swyddogion eu bod eisoes wedi dechrau ystyried hyn a'u bod yn gobeithio cael cynlluniau at raid ar gyfer gwahanol senarios yn barod ar gyfer diwedd mis Awst; ychwanegwyd bod siopau lleol bellach mewn sefyllfa wahanol, ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth, i ddarparu cymorth.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 4, y tabl gwersi a ddysgwyd, a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd a gofynnwyd a fyddai unrhyw weithredu o ran dileu'r ymagwedd gorchymyn a rheoli, gan fod ei dileu, oherwydd y pandemig, wedi grymuso staff ac wedi annog meddwl mwy creadigol. Nodwyd y byddai swyddogion yn darparu cynllun gweithredu manylach yn erbyn yr holl elfennau a gynhwysir yn y tabl gwersi a ddysgwyd a'u bod yn dal i gael adborth a fyddai'n cael ei gynnwys yn y blaengynllunio ar gyfer yr hydref. Ychwanegwyd bod yr elfennau'n perthyn i ddau gategori cyffredinol:

1. Camau gweithredu y byddai angen eu cwblhau ar unwaith oherwydd yr angen i lywio cynlluniau ar gyfer yr hydref a'r posibilrwydd y gallai fod cynnydd mewn heintiau.

2. Newidiadau tymor hwy i'w datblygu, yn arbennig sut byddai diwylliant y cyngor yn cael ei ddatblygu

Gofynnwyd i swyddogion a oedd penderfyniad wedi'i wneud, yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd, mewn perthynas â sut y byddai'r Cydlynwyr Ardaloedd Lleol (CALl) yn cael eu defnyddio. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r adborth a dderbyniodd Aelodau

wedi dweud bod cydlynu ar lefel ardal leol wedi bod yn wirioneddol bwysig; cafwyd trafodaethau byr ar rôl y CALl yng Ngham Adfer Coronafeirws y Panel Aelodau ac roedd swyddogion wedi cyfarfod i nodi pa fath o gynigion y gellid eu llunio. Ychwanegodd swyddogion fod trafodaeth bellach wedi'i chynllunio yn y Panel Aelodau a'r Gweithdy Aelodau, i edrych ar rôl y CALl a lle byddai ymdrech ehangach y cyngor yn ymwneud â datblygu cymunedol, gan ystyried yr adborth o'r gwersi a ddysgwyd gan y Gwasanaeth 'Safe and Well' a'r hyn yr oedd yr Aelodau wedi'i fynegi.

Rhoddwyd canmoliaeth i'r cydlynwyr ardal am eu gwaith caled, effeithiolrwydd y Gwasanaeth 'Safe and Well', gwaith RADAR a pha mor dda y gweithiodd Age Cymru Gorllewin Morgannwg ac Age Connect gyda'i gilydd cyn sefydlu'r Gwasanaeth 'Safe and Well', ac yn ystod yr amser hwnnw.

Trafododd y pwyllgor yn fyr y galwadau ffôn a wnaed i'r rheini a oedd yn gwarchod nad oeddent wedi cysylltu drwy'r Gwasanaeth 'Safe and Well'. Mewn perthynas â hyn,  nodwyd bod y rhan fwyaf o'r unigolion y cysylltwyd â hwy wedi cadarnhau bod ganddynt gefnogaeth ar waith a olygai mai dim ond nifer bach o unigolion a atgyfeiriwyd o ganlyniad i'r galwadau ffôn. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith ei bod hi'n amlwg bod yr unigolion hyn wedi croesawu'r galwadau ac roedd staff wedi crybwyll ei bod wedi cymryd amser hir i weithio drwy'r rhestr alwadau oherwydd faint o amser yr oeddent yn ei dreulio ar y ffôn; roedd hyn yn rhywbeth y byddai angen ei ystyried, ac o bosib sut byddai cymunedau'n gallu cefnogi pobl yn y sefyllfa hon.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet

<u>Strategaeth Adfer</u>

Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a oedd ynghlwm wrth baratoi'r Strategaeth Adfer a gwaith caled, ymrwymiad a hyblygrwydd gweithlu'r cyngor.

Trafodwyd gweithio yn y dyfodol, yn arbennig yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio o bell a mynychu swyddfeydd y cyngor, gan gofio ffactorau economaidd ac amgylcheddol, pwysigrwydd cymunedau a gwerth llywodraeth leol. Dywedodd swyddogion, o ran proses, y sefydlwyd y Panel Aelodau i ddarparu'r math hwn o gyngor i'r Cabinet, wrth i'r cyngor gynllunio'r cynlluniau adfer tymor hwy, ac y gellid defnyddio'r Panel i ddechrau ffordd o feddwl mewn perthynas â thrafodaethau ehangach. Nodwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd

yn nodi'r cyfnod sefydlogi, lle'r oedd gwasanaethau'r cyngor yn cael eu hailgychwyn a sicrhau bod y trefniadau Profi, Olrhain a Diogelu yn lleol ac yn rhanbarthol yn addas at y diben. Hysbyswyd yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi darlun o'r hyn a ddigwyddodd hyd yma a sefyllfa bresennol y cyngor ac y bydd angen cynllunio pellach ar gyfer adferiad wrth symud ymlaen.

Nodwyd nad oedd digon o bwyslais yn yr adroddiad ar waith yr hyrwyddwyr cymunedol, sefydliadau, cynghorau cymuned a phartneriaid eraill ac y byddai'r grwpiau hyn yn hanfodol wrth symud ymlaen. Dywedodd swyddogion nad oedd yr adroddiad yn ceisio gwerthuso'r ymateb cymunedol gan fod hwn yn ddarn o waith yr oedd y Panel Aelodau wedi cytuno i'w wneud; roedd ymchwilydd allanol wedi'i gomisiynu i ddysgu gan y gymuned a chlywed eu barn ynghylch y ffordd y paratowyd yr ymateb. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y cyngor ddiddordeb mewn deall sut y gellid annog hyn i barhau.

Tynnodd y Cynghorydd Woolcock sylw at aelodaeth y Panel a'r gorgyffwrdd sylweddol ag aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Cabinet. Cytunwyd y byddai swyddogion yn rhoi cyngor i Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â'r mater hwn

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**